# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 27 Hydref 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Anton Sampson, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr  Meirick Lloyd Davies, Alice Jones, Gwyneth Kensler a  Merfyn Parry.

Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant a'r Cynghorydd David Smith Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bill Cowie, David Simmons a Hugh Evans (Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi).

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn eitem rhif 8 fel perchennog busnes yn Rhuthun.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 8 Medi, 2016:-

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo’r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 DARPARIAETH YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU/PEOPLE PLUS YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol ei hadroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) oedd yn hysbysu’r Pwyllgor ynglŷn â’r cefndir ar gyfer adleoli gwasanaethau a gomisiynir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gynorthwyo pobl ddi-waith i dderbyn gwaith o'r Rhyl i’r Fflint. Eglurodd bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi comisiynu Rehab Jobfit i ddarparu’r gwasanaethau hyn ar eu

rhan, ac roeddent hwythau wedi is-gontractio’r gwaith i PeoplePlus.  Roedd y contract ar gyfer darparu’r rhaglen bresennol o wasanaethau yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2017. O fis Ebrill 2017 roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu darparu Rhaglen Waith ac Iechyd newydd, ac nid oedd y contract ar gyfer y Rhaglen wedi’i ddyfarnu eto.

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol i’r cyfarfod; Mr John Bisby (Rheolwr Rhanbarthol, Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau), a Mr Joel Payne (Rheolwr Rhanbarthol, Gogledd a De Cymru, PeoplePlus) a Mr Brett Smith (Rheolwr PeoplePlus, y Fflint).   Eglurodd Rheolwr Rhanbarthol PeoplePlus, gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, y rhesymau dros benderfyniad y sefydliad i adleoli rhan o’i waith o’r Rhyl i’r Fflint. Pwysleisiodd eu bod yn parhau i weithredu gwasanaeth allgymorth yn y Rhyl at ddibenion darparu cymorth cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau.

Mae llwyddiant gwasanaethau PeoplePlus i gael mwy o bobl i dderbyn gwaith yn golygu bod llai o unigolion yn cael eu hatgyfeirio i’r ganolfan yn y Rhyl.  Roedd unrhyw un yn yr ardal sy’n cael eu hatgyfeirio yn cael eu hatgyfeirio i swyddfa’r Fflint, lle'r oedd mwy o wasanaethau ar gael.  Byddai’r rhai sy’n cael eu hatgyfeirio i’r Fflint yn derbyn eu costau teithio a byddai staff yn gweithio gyda nhw mewn ymgais i’w cynorthwyo i dderbyn mynediad at wasanaethau a'r farchnad swyddi.

Eglurodd y Rheolwr Rhanbarthol bod sawl ‘chwedl’ wedi codi yn dilyn cyhoeddiad y penderfyniad i adleoli’r gwasanaethau o’r Rhyl i’r Fflint, gan bwysleisio y byddai pobl nad oeddent yn gallu teithio i’r Fflint yn cael eu gweld yn swyddfa allgymorth y Rhyl, a oedd wedi’i leoli yng nghanol y dref yn awr, wrth ymyl 'Canolfan y Rhyl’. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd, er y bu'n rhaid i'r sefydliad adael eu heiddo blaenorol yn y Rhyl yn gynharach na’r disgwyl roeddent wedi ymgynghori’n helaeth gyda’r landlord a’r staff ynglŷn ag adleoli i safle arall yn y dref am gyfnod sylweddol gan eu bod yn teimlo nad oedd yr eiddo yn ‘addas i bwrpas’.

Darparodd y Rheolwr Rhanbarthol fanylion:

- ynglŷn â sylfaen cwsmeriaid y sefydliad yn ardal y Rhyl (gan gynnwys eu hadborth ynglŷn â’r newidiadau ar ôl adleoli mwyafrif y gwasanaethau i’r Fflint, a oedd yn gadarnhaol yn gyffredinol); ac

- ynglŷn ag ystadegau cyfanswm y cyfraddau trawsnewid swyddi a pherfformiad yn erbyn y targedau a osodwyd (roedd y mwyafrif ohonynt wedi'u diwallu neu eu rhagori)

Yna amlinellodd Rheolwr Rhanbarthol yr Adran Gwaith a Phensiynau’r trawsnewidiad yn ei wasanaeth ar hyn o bryd fel rhan o gyflwyno 'Rhaglen newydd Iechyd a Gwaith’, a fyddai'n weithredol ym mis Ebrill 2017. Roedd gan y rhaglen hon ymagwedd llai cyfyngol a byddai'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn a’r cyflogwr.

Byddai'r gwasanaeth newydd yn canolbwyntio ar gynorthwyo a chefnogi pobl i dderbyn gwaith, gan weithio gyda nhw a'u cyflogwyr a'r sgiliau sydd eu hangen mewn marchnad swyddi sy'n newid yn barhaus.  Eglurodd o ddiwedd mis Mawrth

2017 byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi'r gorau i atgyfeirio pobl at PeoplePlus ar gyfer gwasanaethau rhaglenni gwaith, ond byddai'n parhau i gefnogi cwsmeriaid presennol i dderbyn gwasanaethau PeoplePlus.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, ymatebodd cynrychiolwyr y ddau sefydliad:

- drwy bwysleisio eu bod bob amser yn fodlon gwrando a chynorthwyo unigolion sy'n cysylltu â nhw;

- Roedd PeoplePlus yn cynorthwyo unigolion i dderbyn hyfforddiant, cymwysterau, gwybodaeth a chefnogaeth i sefydlu mentrau cymdeithasol ac ati. Roeddent hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill megis Meddygon Teulu ac ati ar broblemau megis gordewdra, asiantaethau eraill i gynorthwyo pobl i dderbyn gwaith e.e. dulliau arloesol o gyflwyno cais am swydd, arian ar gyfer dillad gwaith ac ati, a sicrhau cyfleoedd gwaith cynaliadwy ar gyfer pobl;

- Cytunodd PeoplePlus y byddent yn darparu ystadegau ynglŷn â'r gostyngiad yn nifer yr unigolion oedd angen eu gwasanaethau yn awr, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r mathau o gyflogaeth a dderbyniwyd. Fe wnaethant hefyd gynnig darparu Newyddlen fisol i'r aelodau yn nodi'r prosiectau ac ystadegau presennol, ac fe dderbyniodd y Pwyllgor hynny;

- Darparwyd trosolwg o'r gwaith y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhan ohono mewn perthynas â phrosiect Ynys Ynni Môn, drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gyda'r nod o wneud y mwyaf o'r buddiannau ar gyfer ardal gyfan Gogledd Cymru o orsaf bŵer niwclear arfaethedig Wylfa B drwy ddatblygu cyfleoedd gyrfa hirdymor yn y diwydiant pŵer a'r diwydiannau cyflenwi ategol;

- Cadarnhawyd bod trafodaethau ar y gweill rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych gyda'r nod o ddatblygu ymagwedd debyg i ymagwedd Wylfa B ar gyfer cyfleoedd sgiliau a gyrfa ar gyfer cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych; ac

- roedd gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Gogledd Cymru.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y sefydliadau am fynychu'r cyfarfod ac am egluro eu sefyllfaoedd; am egluro'r camsyniadau yn y gymuned ynglŷn ag effaith adleoli gwasanaethau o'r Rhyl i'r Fflint ac am gadarnhau i'r Cyngor a'r preswylwyr fod eu gwasanaethau ar gael i'r holl drigolion sydd eu hangen ac eisiau eu derbyn. Awgrymodd hefyd i'r ddau sefydliad, os nad oedd y wasg yn adrodd ffeithiau llawn unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol, efallai y dylent gysylltu â'r Cyngor gyda'r nod o sicrhau fod preswylwyr yn derbyn y ffeithiau cyfan.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor yn derbyn y cyflwyniad ac yn seiliedig ar y wybodaeth uchod dylid cyflwyno datganiad i'r wasg i egluro unrhyw gamsyniadau yn y gymuned.*

## 6 RHEOLI CEFNOGI BYW'N ANNIBYNNOL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) adroddiad, gan gynghori bod yr adroddiad yn amlinellu buddion posibl symleiddio rheolaeth Gwasanaethau Cefnogi Byw'n Annibynnol ac Ailalluogi, tra'n cadw annibyniaeth elfen darpariaeth weithredol y gwasanaethau. Cynghorwyd yr aelodau fod dangosyddion cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol, drwy Grant Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru (LlC), ar gyfer 2017/18 yn ymddangos yn ffafriol. Ymatebodd Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r swyddogion i gwestiynau'r Aelodau:

- gan egluro'r termau yn yr adroddiad mewn perthynas â gwahanol swyddi 'darparwyr gofal', gan bwysleisio y gallai Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig ddarparu elfennau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

- Nodwyd, yn ogystal â darparu arbedion ariannol ar gyfer y Cyngor drwy gael un rheolwr yn lle dau, dylai uno'r gwasanaethau o dan un rheolwr wella darpariaeth gwasanaeth a darparu gwasanaeth di-dor i'r defnyddiwr gwasanaeth;

- cadarnhawyd y gallai achosi mwy o gyfleoedd dilyniant gyrfa ar gyfer y staff;

- gan gydnabod bod symleiddio rheolaeth y gwasanaethau yn cael ei gymell yn rhannol gan y gyllideb, cynghorwyd hefyd y dylai'r strwythur newydd ddarparu gwasanaethau ymyrraeth o well ansawdd a gwella gwydnwch defnyddwyr gwasanaeth o ganlyniad i hyn. Byddai hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor o ddiogelu pobl ddiamddiffyn ac yn eu cynorthwyo i fyw'n annibynnol am gyn hired â phosibl a sicrhau fod gan bobl fynediad at dai o ansawdd da;

- cynghorwyd y byddai pob swydd wag yn cael ei hadolygu i benderfynu a oedd yn diwallu gofynion Safonau'r Gymraeg;

- Cadarnhawyd bod 7 allan o'r 21 o argymhellion yn Adolygiad Gwasanaeth Cefnogi Pobl yn weddill ar hyn o bryd, roedd mwyafrif y camau sy'n weddill yn gysylltiedig â'r ailstrwythuro presennol ac felly dylid eu darparu o fewn y terfyn amser a gytunwyd;

- eglurwyd pan yr ystyrir rhyddhau cleifion mewnol mewn ysbytai roedd gweithdrefn rhyddhau o'r ysbyty yr oedd yn rhaid ei dilyn i sicrhau eu bod yn ddigon iach i gael eu rhyddhau ac y byddent yn ddiogel yn eu cartref eu hunain;

- Hysbyswyd y Pwyllgor pe bai preswylwyr, gofalwyr neu gynghorwyr eisiau cyflwyno ymholiad ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael dylent gysylltu â'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl fel cam cyntaf. Roedd cysylltu â'r Pwynt Mynediad Sengl yn dechrau'r sgwrs "Beth sy'n Bwysig" gan arwain at flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer pob unigolyn i ddiwallu eu hanghenion penodol. Roedd hefyd yn borth ar gyfer unigolion oedd heb deulu neu gyfeillion gerllaw i'w cefnogi i gael cymorth a chefnogaeth; a

- cadarnhawyd y byddai ymgynghoriad gyda'r staff ynglŷn â'r strwythur newydd a'r amodau a thelerau cysylltiedig yn dechrau ar 8 Tachwedd 2016.

Ar ddiwedd y drafodaeth gofynnodd y Pwyllgor :

- bod gwybodaeth am y dangosyddion a ddefnyddir i fesur effeithlonrwydd y gwasanaeth o ran darparu'r canlyniadau yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn gynnar yn y gwanwyn 2017;

- bod yr aelodau yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â dyfarniad cyllid grant Cefnogi Pobl ar gyfer y gwasanaethau uchod cyn gynted ag y bo ar gael; ac

- y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr holl achosion unigol a atgyfeirir i'r gwasanaethau yn derbyn ystyriaeth lawn i dderbyn y gwasanaethau a geisiwyd ac eraill a allai fod yn briodol ar eu cyfer.

Felly:

***<u>PENDERFYNWYD:-</u>***

*(i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod ac ar dderbyn sicrwydd na fyddai symleiddio rheolaeth y gwasanaethau yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau'r rheng flaen ac y byddai'n cefnogi darpariaeth integredig effeithiol gwasanaethau gofal iechyd a chefnogaeth i breswylwyr, y dylid derbyn yr adroddiad; a*

*(ii) bod adroddiad cynnydd pellach o ran symleiddio'r strwythur rheoli, gan gynnwys gwybodaeth am y dangosyddion a ddefnyddir i fesur effeithiolrwydd y gwasanaethau i ddarparu'r canlyniadau arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ddechrau'r gwanwyn 2017.*

## 7 STRATEGAETH RHEOLI RISG LLIFOGYDD

Wrth gyflwyno adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Reoli Risg Llifogydd Arfordirol ac Erydu yng Nghymru' (a oedd ynghlwm fel atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol) pwysleisiodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus fod hwn yn adroddiad cenedlaethol. Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, fel dirprwy'r Rheolwr Risg Llifogydd, sylw'r aelodau at baragraff 4.1 yr adroddiad eglurhaol a oedd yn amlygu prif bwyntiau'r adroddiad cenedlaethol o safbwynt Sir Ddinbych. Eglurodd hefyd fod diweddariad cynnydd o ran gweithredu'r amcanion, canlyniadau a mesurau Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd y Cyngor ynghlwm i'r adroddiad fel atodiad 2 hefyd er gwybodaeth i'r Aelodau.

Yn ogystal â'r camau a nodwyd yn y Strategaeth at ddibenion lliniaru risg llifogydd yn Sir Ddinbych, roedd mesurau eraill wedi'u cymryd mewn ymgais i leihau'r risg, er enghraifft, mesurau gweithredol megis arolygu ceuffosydd yn rheolaidd, gwagio rhigolau ac ati.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, eglurodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd a Chyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus:

- Roedd 'glannau afon' yng nghyd-destun yr adroddiadau yn golygu tir ger afon. Cyfrifoldeb y perchennog tir yw mesurau lliniaru llifogydd yn yr ardaloedd hyn fel arfer;
- roeddent o dan yr argraff fod system mapio risg llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ddiwygio i adlewyrchu unrhyw waith lliniaru llifogydd a wnaed;
- er bod 'ail-alinio arfordirol' a 'cilio a reolir' yn dermau a ddefnyddiwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fel dulliau o reoli digwyddiadau dŵr dros ben a llifogydd yn y dyfodol, roedd nifer o gwestiynau heb eu hateb mewn perthynas â chynigion o'r fath;
- er bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar lifogydd arfordirol ac erydiad tir, roedd llifogydd mewndirol ac erydiad tir hefyd yn broblem yn Sir Ddinbych ac felly roedd mesurau lliniaru llifogydd wedi'u gweithredu h.y. yn ardal Corwen.
- roedd mapiau risg llifogydd wedi'u hystyried fel rhan o'r broses gynllunio pan dderbynnir ceisiadau am ganiatâd cynllunio;
- Byddai'n rhaid i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr, megis y rhai yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), amlinellu cynlluniau/strategaethau rheoli risg llifogydd a rheoli dŵr yn eu ceisiadau manwl, ynghyd ag effaith ganlyniadol eu ceisiadau datblygu;
- roedd proses gynllunio'r awdurdod lleol yn ystyried asesiadau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gellir gwrthod caniatâd cynllunio ar sail risg llifogydd perthnasol;
- mae'n rhy gynnar i benderfynu a fyddai colled terfynol cyllid Ewropeaidd ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd, o ganlyniad i bleidlais Brexit, yn cael ei ddisodli gan gyllid Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru (LlC) maes o law.
- roedd trafodaethau ar y gweill gydag arbenigwyr cynnal a chadw pontydd ar lefel y gwaith sydd ei angen i gynnal safonau diogelwch pontydd y sir;
- roedd pryderon mewn perthynas â'r ffaith nad oedd afonydd yn cael eu carthu'n rheolaidd a oedd yn cynyddu risg llifogydd ac roedd pwysau ychwanegol ar bontydd y sir yn ystod cyfnodau o law trwm a llanw uchel.

Roedd Aelodau yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe gellir ffurfio partneriaeth rhwng y Cyngor, perchnogion tir lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru at ddibenion carthu a chynnal dyfrffyrdd i leihau risg llifogydd. Felly teimla'r Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol gwahodd Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfarfod yn y dyfodol i drafod materion rheoli dŵr.

Yn ystod y drafodaeth gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau oedd wedi codi materion mewn perthynas â phryderon llifogydd lleol penodol iawn neu fesurau lliniaru gyda Rheolwr Risg Llifogydd ac i adrodd unrhyw broblemau sy'n hysbys gyda cheuffosydd (gan gynnwys ceuffosydd wedi gordyfu neu eu rhwystro) i'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmer er mwyn eu rhestru ar system Rheoli Cyswllt Cwsmer ar unwaith a'u rhestru ar gyfer arolwg.

Byddai cwestiynau ychwanegol a godwyd yn ystod y cyfarfod ar gynnwys yr adroddiad ac sydd angen gwybodaeth dechnegol neu arbenigol yn cael eu hanfon ymlaen at y Rheolwr Risg Llifogydd ac arbenigwyr eraill i gael ymatebion ysgrifenedig. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â:

- system AMX;
- nifer yr offer clirio/gwagio rhigolau yr oedd y Cyngor yn eu gweithredu a'u haddasrwydd i gael mynediad i ardaloedd hygyrchedd cyfyngedig;
- a oedd gan y Cyngor raglen waith clirio rhigolau/ceuffosydd yn rheolaidd;
- a oedd unrhyw dystiolaeth fod cwmnïau yswiriant a/neu gwmnïau morgais yn cydnabod y gwaith a wnaed gan awdurdodau lleol/Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â lliniaru llifogydd h.y. premiymau yswiriant is; caniatau cynigion morgais mewn ardaloedd a oeddent yn cael eu hystyried fel risg uchel o lifogydd yn flaenorol ac ati;
- a oedd digon o gapasiti o fewn y CDLl ac ati i ddelio â dŵr wyneb a dŵr draenio sy'n dod o safleoedd newydd er mwyn lliniaru risg llifogydd pellach yn bellach i lawr ac ati;
- a oedd gan y Cyngor strategaeth rheoli dŵr cadarn neu gynlluniau rheoli dŵr sy'n fwy lleol i ddelio â dŵr dros ben h.y. un broblem a nodwyd oedd Parc Busnes Llanelwy;
- a oedd gan yr Adran Priffyrdd bolisi i wyro dŵr wyneb i ffosydd, gan fod hyn yna'n achosi problemau pellach, yn enwedig pan nad oedd y ffosydd yn cael eu cynnal neu eu carthu. Nodwyd problem hirsefydlog yn ardal Bodelwyddan fel enghraifft.

Cyn diwedd y drafodaeth cefnogodd y Pwyllgor yr awgrym y dylid gwahodd cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru i gyfarfod yn y dyfodol at ddibenion trafod materion rheoli dŵr, gan gynnwys:

- effaith rhwystrau/amddiffynfeydd llifogydd arfordirol ar eiddo a thir isel e.e. yn Nyffryn Clwyd, yn enwedig gan y byddent mewn perygl llifogydd yn ystod cyfnodau o law trwm beth bynnag;
- a chanllawiau/cyngor rheoli dŵr a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio domestig a busnes/diwydiannol, yn enwedig effaith bosibl y datblygiadau mawr ar reoli dŵr y tu allan i'r ardal sy'n agos at y datblygiad.

Roedd yr Aelodau hefyd yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o risgiau llifogydd arfordirol ac afonydd yn Sir Ddinbych, ynghyd â chael gwybodaeth am waith rheoli dŵr presennol ac arfaethedig (gan gynnwys 'cilio a reolir') gyda'r partneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat yn yr ardal.

Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai Aelodau Etholedig, drwy eu rôl fel arweinwyr cymunedol, hwyluso'r holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol, i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i leihau a rheoli risg llifogydd yn eu hardaloedd lleol.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***<u>PENDERFYNWYD:</u>***

***(i)*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad a chefnogi ymagwedd y Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau fel Awdurdod Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac i gyflawni'r mesurau a'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol; a*

***(ii)*** *Gwahodd cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru i fynychu cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i drafod materion rheoli dŵr/llifogydd gyda'r aelodau ac i archwilio ardaloedd posibl lle y gallai'r aelodau etholedig a'r awdurdod lleol weithio'n effeithiol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i leihau risg llifogydd yn y cymunedau lleol.*

**8 EFFAITH Y CYNNYDD MEWN TALIADAU PARCIO CEIR AR Y SIR**

Yn ei gyflwyniad, atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y fethodoleg ar gyfer gosod prisiau parcio priodol ar draws y sir wedi'i archwilio gan y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2015 a bod y Pwyllgor wedi argymell bod y pris parcio is o'r ddau a gynigiwyd yn cael ei weithredu. Roedd penderfyniadau ynglŷn â ffioedd a phrisiau parcio yn bŵer wedi'i ddirprwyo i'r Prif Swyddog ac ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol roedd y Swyddog Arweiniol wedi penderfynu y byddai'n well codi'r pris uchaf o'r ddau.

O ganlyniad, pan weithredwyd y penderfyniad derbyniwyd rhyw faint o ymatebion anffafriol gan breswylwyr a busnesau. Mewn ymateb i'r pryderon hyn roedd y Pwyllgor wedi gofyn fod adroddiad ar effaith y cynnydd mewn prisiau ar drefi'r sir yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan yr aelodau. Croesawodd y Cadeirydd ddau aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac fe'u cynghorwyd y gallant rannu eu sylwadau gyda'r Pwyllgor ar ôl cyflwyno'r adroddiad ffurfiol.

Gan gyflwyno'r adroddiad a'r atodiadau cysylltiol, atgoffodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus y Pwyllgor mai'r cynnydd mewn prisiau parcio a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2016 oedd y cynnydd cyntaf yn Sir Ddinbych ers 2009. Pwysleisiodd nad oedd yr holl brisiau wedi cynyddu, er enghraifft roedd cost trwydded parcio flynyddol wedi parhau'r un fath.

Roedd y fenter hirsefydlog sy'n caniatáu i bob cyngor tref enwebu pum diwrnod parcio am ddim yn eu tref bob blwyddyn wedi'i gadw hefyd, ynghyd â'r arfer o

ganiatáu parcio am ddim ym mhob tref o 3pm yn ddyddiol yn y 4 wythnos cyn y Nadolig.

Hysbysodd yr Aelod Arweiniol y Pwyllgor fod dau gyngor tref, ar ôl clywed am y prisiau parcio newydd, wedi bod yn arloesol ac wedi penderfynu rhoi cymhorthdal ar gyfer prisiau parcio yn eu trefi penodol o'u harian eu hunain, roedd eraill o'r farn nad oedd hyn yn hanfodol.

Wrth annerch y Pwyllgor nododd aelod o'r cyhoedd:

- ei bod hi wedi synnu mai dim ond 35 cwyn a dderbyniwyd, yn enwedig gan ei bod yn ymwybodol o ddeiseb a gyflwynwyd o ardal Rhuthun a oedd yn cynnwys dros 1,100 o lofnodion;

- roedd prisiau parcio meysydd parcio arhosiad byr wedi cynyddu 300%, a oedd yn golygu bod meysydd parcio Sir Ddinbych yn ddrytach na'r rhai mewn awdurdodau cyfagos;

- gan mai dim ond mewn meysydd parcio arhosiad hir y gellir prynu trwyddedau parcio roedd yn cyfyngu opsiynau parcio ar gyfer pobl anabl.

Yn dilyn trafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- roedd angen hyrwyddo argaeledd trwyddedau parcio blynyddol yn ehangach;

- pryderon y byddai cynnydd mor sylweddol mewn prisiau parcio yn golygu y byddai pobl yn mynd i siopa ymhellach i ffwrdd, lle'r oedd y prisiau yn is.

- roedd gan bob tref ei anghenion unigol, ac roedd yr effaith yn waeth yn Rhuthun gan fod y gost ar gyfer gyrwyr wedi'i gymorthdalu gan arian a roddwyd gan gronfa a sefydlwyd gan aelodau lleol yn ystod cyfnod swydd y Cyngor blaenorol tan eleni.  Fodd bynnag, roedd y gronfa wedi dod i ben yn awr ac roedd hyn wedi digwydd yr un pryd â chyflwyno'r prisiau newydd, felly roedd Rhuthun wedi profi effaith ddwbl.  Roedd Cyngor Tref Rhuthun wedi penderfynu peidio â mabwysiadu'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan Gynghorau Tref Dinbych a Phrestatyn o gymorthdalu'r costau parcio yn eu trefi;

- er bod incwm mwyafrif y meysydd parcio wedi cynyddu ers cyflwyno'r prisiau newydd, roedd llai o docynnau wedi'u gwerthu;

- y ffaith fod prisiau parcio yn llawer is yn yr Wyddgrug nac yn Rhuthun;

- teimlad nad oedd parcio ceir yn broblem fawr yn y Rhyl oherwydd y ffaith fod y siopau mawr wedi adleoli i Brestatyn, fodd bynnag roedd pobl yn anfodlon parcio yn y maes parcio tanddaearol a weithredwyd gan y Cyngor oherwydd bod ceir sy'n cael eu gadael yno'n cael eu fandaleiddio;

- ni ddylid defnyddio nifer y cwynion fel yr unig feincnod ar gyfer anfodlonrwydd preswylwyr ac eraill gyda'r prisiau newydd, dylid rhoi

ystyriaeth i ddefnyddwyr blaenorol y meysydd parcio a oedd yn awr yn gyrru i rywle arall i siopa neu ganfod gofodau parcio, gan effeithio ar ardaloedd preswyl ar adegau;

- pryderon ynglŷn â diffyg gofodau parcio dynodedig ar gyfer beiciau modur/ sgwteri ym meysydd parcio’r sir a oedd yn golygu bod cerbydau llai yn defnyddio gofodau parcio llawn mewn meysydd parcio penodol;

- cydnabod bod y cynnydd diweddar mewn prisiau parcio wedi achosi pryder ymysg preswylwyr, fodd bynnag, roeddent yn llawer is na rhai ardaloedd eraill, yn enwedig ardaloedd twristiaeth.  Cyfeiriodd un cynghorydd at nifer y lleoedd yr oedd wedi ymweld â nhw yn ystod yr haf ar draws Gogledd Cymru a Swydd Amwythig.  Dim ond mewn dau le yr oedd wedi peidio â pharcio mewn maes parcio cyhoeddus oherwydd prisiau gormodol, roedd y ddau yn lleoliadau mewn trefi twristiaeth arfordirol yng Ngwynedd;

Cofrestrodd y Cynghorydd Rhys Hughes ei wrthwynebiad personol i gynghorau tref yn cymorthdalu prisiau parcio yn eu trefi, gan ei fod yn credu y dylai’r prisiau fod yr un fath ac yn gyson ar draws y sir.

Nododd yr aelodau eraill oedd yn bresennol, er y byddai pawb yn hoffi parcio am ddim, yn yr hinsawdd economaidd bresennol y gwirionedd oedd nad oedd hynny’n bosibl os oedd y cyngor am fuddsoddi yn ei feysydd parcio.  Er y cydnabuwyd y gall prisiau parcio gael effaith ar nifer ymwelwyr yng nghanol trefi ac ar fusnesau yn gyffredinol, roedd arferion siopa’r cyhoedd wedi newid hefyd.  Roedd pobl yn tueddu i ymweld â pharciau siopa y tu allan i drefi, ac roedd siopa ar ddydd Sul a siopau 24 awr ar gael mewn nifer o leoedd yn awr, ynghyd â siopa ar y we.  Roedd yr holl agweddau hyn wedi effeithio ar siopa yng nghanol trefi.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth fesuradwy i ddangos a oedd y cymhorthdal o £50mil a roddwyd gan yr aelodau lleol i ardal Rhuthun i gymorthdalu prisiau parcio dros gyfnod o bum mlynedd wedi gwneud gwahaniaeth i nifer yr ymwelwyr neu’r busnesau yn y dref.  Atgoffwyd aelodau’r Pwyllgor hefyd fod gan Sir Ddinbych ei ganolfannau siopa y tu allan i drefi e.e. Tweedmill a Pharc Manwerthu Clwyd a oedd yn cyflogi nifer o breswylwyr ac yn cyfrannu at yr economi leol.

Gan ymateb i’r pwyntiau a godwyd eglurodd yr Aelod Lleol a'r swyddogion fod:

- nifer y cwynion a dderbyniwyd, cyfanswm o 35, yn cyfeirio at nifer y cwynion unigol penodol a dderbyniwyd drwy Ganolfan Gwasanaethau Cwsmer y Cyngor.  Nid oedd deisebau a lofnodwyd wedi’u cynnwys yn y ffigurau hyn;

- roedd argymhelliad 9 yn atodiad 2 yn cydnabod bod angen hyrwyddo argaeledd y trwyddedau parcio blynyddol ac archwilio hyfywedd yr opsiwn o dalu am drwyddedau blynyddol mewn rhandaliadau;

- roedd trwyddedau parcio ar gael mewn meysydd parcio arhosiad hir yn unig, ond yr unig eithriad oedd maes parcio Heol y Farchnad yn Llangollen.  Y rheswm dros hyn oedd bod meysydd parcio arhosiad hir yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan bobl sy'n gweithio yn hytrach na siopwyr;

- er bod canran o 300% o gynnydd yn ymddangos fel cynnydd hynod o sylweddol, mewn arian mewn perthynas â meysydd parcio arhosiad byr roedd cost arhosiad byr wedi cynyddu o 20c;

- ni fyddai'r Cyngor eisiau diwygio costau parcio yn rheolaidd gan fod costau sylweddol yn gysylltiedig ag ymarfer o'r fath h.y. roedd ail-raglennu peiriannau talu ac arddangos ar draws y sir wedi costio £11mil, nid oedd hyn yn cynnwys costau staffio;

- Roedd Grŵp Ardal Aelodau Dinbych wedi gofyn i swyddogion y Gwasanaethau Parcio fynychu cyfarfod Cyngor Tref Dinbych i drafod y cynnydd mewn prisiau parcio. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw roedd y Cyngor Tref wedi cynnig cyflwyno cymhorthdal;

- er bod nifer y tocynnau a werthwyd yn is nag yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, roedd nifer y trwyddedau blynyddol a werthwyd wedi cynyddu'n sylweddol o 18%. Roedd angen gwaith pellach ar y data hwn, gan gynnwys arolwg nifer ymwelwyr er mwyn dadansoddi'r gwir effaith ar fusnesau canol y dref, ond roedd y dadansoddiad cychwynnol o ffigurau gwerthu tocynnau yn awgrymu bod unigolion a oedd yn prynu dau docyn hanner diwrnod yn y gorffennol yn awr yn prynu trwyddedau blynyddol gan fod hyn yn rhatach yn y pen draw;

- mewn perthynas â ffioedd parcio yn Sir y Fflint, roedd cyngor tref yr Wyddgrug yn cymorthdalu'r prisiau parcio yn y dref ac roedd prisiau parcio mewn ardaloedd eraill yn y sir yn uwch. O ran cymharu â siroedd eraill roedd prisiau newydd Sir Ddinbych yn cyd-fynd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r awdurdodau cyfagos eraill;

- nid oedd argaeledd gofodau parcio, arhosiad byr ac arhosiad hir, yn gymaint o broblem yn y Rhyl ag ydoedd mewn mannau eraill yn y sir, gan fod gan y dref nifer o feysydd parcio cyhoeddus a phreifat sy'n hawdd eu cyrraedd;

- roeddent yn ymwybodol o ddiffyg gofodau parcio dynodedig ar gyfer beiciau modur/sgwteri anabledd/beiciau yn y sir ac roeddent yn gweithio ar gynlluniau i fynd i'r afael â'r diffyg hwn;

- roedd pob maes parcio sy'n eiddo i'r cyngor ar draws y sir yn destun yr un cynllun codi tâl; fodd bynnag roedd rhai cynghorau tref wedi dewis cymorthdalu'r prisiau ac felly'n ad-dalu'r Cyngor Sir gyda balans yr incwm sy'n ddyledus o'r meysydd parcio hynny. Felly roedd y Cyngor Sir yn derbyn taliad llawn ar gyfer pob tocyn a brynwyd;

- roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi ym meysydd parcio'r sir yn hir dymor. Roedd adolygiad rheoli asedau ar y gweill mewn perthynas â'r holl feysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn nodi lefel y gwaith cynnal a chadw a gwella yr oedd ei angen ym mhob un, gan gynnwys rhestr o brosiectau blaenoriaeth. Rhagwelwyd y byddai disodli'r holl beiriannau talu ac arddangos gyda pheiriannau gwell yn costio oddeutu £300mil i £400mil.

- roedd angen diweddaru a gwella’r arwyddion ac ymgymryd â gwaith y parth cyhoeddus er mwyn sicrhau bod meysydd parcio yn groesawgar, yn enwedig gan eu bod yn borth i Sir Ddinbych ar gyfer twristiaid ac ati;

- gellir cyflwyno cynllun rheoli asedau drafft i’r pwyllgor archwilio i’w ymgynghori maes o law os yw aelodau yn dymuno hynny.

- gwnaed penderfyniad i beidio ag amrywio cost parcio am awr rhwng meysydd parcio arhosiad byr ac arhosiad hir  Dim ond y gyfradd tair awr oedd wedi'i hamrywio.

- roedd trafodaethau ar y gweill gydag Adran Gwasanaethau Eiddo’r Cyngor ynglŷn â hyfywedd agor meysydd parcio staff fel meysydd parcio talu ac arddangos ar benwythnosau a gŵyl y banc ac ati, yn benodol yr un yn Neuadd y Sir, nawr fod yr adeilad a’r tir yn eiddo i’r Cyngor;

- roedd swyddogion gorfodi parcio yn gorfodi rheolau parcio ar ddydd Sul hyd at ddiwedd mis Hydref, ac yn parhau â'r gwaith gorfodi ar ddydd Sul ar ôl y dyddiad hwnnw pan gynhelir digwyddiadau;

- dylid archwilio nifer o opsiynau arloesol i gynorthwyo i gyflawni’r blaenoriaethau corfforaethol o ddatblygu'r economi leol, i ddarparu strydoedd glân a thaclus, a buddsoddi ym meysydd parcio'r sir.  Roedd y rhain yn cynnwys trwyddedau parcio y gellir eu trosglwyddo, cynlluniau taleb parcio gwesty a llety gwely a brecwast ac ati; a

- byddai rhannu gwybodaeth ynglŷn â’r newidiadau i brisiau parcio wedi elwa o gyfathrebu'n well ar draws y sir, yn enwedig o ran buddiannau prynu trwyddedau blynyddol.

Cynghorodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai’r broses penderfyniadau dirprwyol gan Brif Swyddog yn y dyfodol yn destun yr un lefel o archwilio, gan gynnwys opsiwn i alw penderfyniad i mewn i’w archwilio, fel y gwneir ar gyfer penderfyniadau dirprwyol gan Aelodau Cabinet ac Aelodau Arweiniol ar hyn o bryd.

Ar ddiwedd y drafodaeth roedd y Pwyllgor o’r farn nad oedd unrhyw elw o adolygu'r prisiau parcio ar hyn o bryd ac y byddai’n well mabwysiadu dull rhagweithiol o reoli a buddsoddi ym meysydd parcio’r Cyngor.  Hefyd roedd angen hysbysu’r preswylwyr ynglŷn â'r cynlluniau a'r datblygiadau ar gyfer meysydd parcio'r Cyngor. Yn dilyn trafodaeth fanwl:-

***<u>PENDERFYNWYD</u>****, yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn argymell:*

*(i) Bod y Cyngor yn cadw’r cynllun codi tâl presennol ar gyfer y Sir gyfan (fel y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad).*

*(ii) Gallai’r Swyddogion ddiwygio’r trefniadau rheoli yn y meysydd parcio, gan gynnwys cyflwyno amrywiadau i’r cynllun codi tâl ar draws y Sir, drwy drafodaethau gyda GGAau, Cynghorau Tref a'r Aelod Arweiniol.*

*(iii) Dylai'r swyddogion fynychu pob un o'r chwe Grŵp Ardal Aelodau dros y chwe mis nesaf (Hydref 2016 i fis Mawrth 2017) i drafod y trefniadau rheoli ar gyfer y meysydd parcio yn eu hardal.*

*(iv) datblygu cynllun rheoli asedau meysydd parcio i gynorthwyo i flaenoriaethu buddsoddiad, gan gynnwys peiriannau talu ac arddangos modern; gwell arwyddion; gwella gwaith cynnal a chadw cyffredinol; gwelliannau amgylcheddol gan gynnwys plannu ychwanegol ac ati.*

*(v) opsiynau i'w harchwilio ar gyfer defnyddio peiriannau talu am barcio i gyflwyno talebau i'w defnyddio mewn siopau lleol, caffis a chyfleusterau'r Cyngor. Gallai hyn amrywio o dalebau syml wedi'u hargraffu ar gefn pob tocyn i beiriannau talu sy'n cynnig amryw o opsiynau.*

*(vi) dylid galluogi trosglwyddo tocynnau talu ac arddangos rhwng y meysydd parcio o fewn y Sir i wella hyblygrwydd yn enwedig ar gyfer ymwelwyr, er mwyn i rywun allu prynu tocyn diwrnod cyfan mewn un maes parcio, a fyddai'n caniatáu iddynt barcio mewn unrhyw faes parcio arall y Cyngor yn Sir Ddinbych ar y diwrnod hwnnw.*

*(vii) archwilio estyniad posibl i'r system trwyddedau parcio presennol i gynnwys mwy o opsiynau ar gyfer twristiaid. Er enghraifft, gellir gwerthu trwyddedau parcio sy'n para am wythnos, neu benwythnos yn y siopau papur newydd lleol, fel y gwneir mewn lleoedd fel Jersey.*

*(viii) swyddogion i ystyried opsiynau ar gyfer cynlluniau taleb parcio ar gyfer gwestai a llety gwely a brecwast a fyddai'n caniatáu i westeiwyr roi taleb parcio i'w gwesteion ar gyfer cyfnod eu harhosiad, ac osgoi yr amgylchiadau pan fu'n rhaid i westeion godi a mynd i brynu tocyn talu ac arddangos yn gynnar yn y bore i osgoi dirwy.*

*(ix) Gwella'r gwaith o hyrwyddo'r trwydded parcio arhosiad hir blynyddol ac ystyried cyflwyno'r gallu i dalu mewn rhandaliadau a*

*(x) dylid cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor mewn chwe mis ynglŷn ag effaith y cynnydd mewn prisiau parcio, ynghyd â chynllun drafft rheoli asedau meysydd parcio i dderbyn sylwadau'r aelodau arno.*

## 9 PROSES, METHODOLEG A MEINI PRAWF AR GYFER YMGYMRYD AG ARCHWILIADAU DIOGELWCH AR Y FFYRDD MEWN PERTHYNAS Â CHEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ac eglurodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd y broses a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgymryd ag archwiliadau diogelwch ar y ffyrdd mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer y gofynion ar gyfer archwilio diogelwch ar y ffyrdd. Mewn ymateb i gwestiynau aelodau eglurodd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth y Gwasanaeth a'r Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd:

- y byddai datblygwr sy'n cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio yn penodi ymgynghorydd dylunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Fel rhan o'r broses

ddylunio gynnar byddai archwiliad rhagarweiniol diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei gyflawni. Byddai’r archwiliad rhagarweiniol hwn yn ystyried materion megis gwelededd mewn cyffyrdd ffordd ac ati.

- byddai’n rhaid dogfennu’r holl bwyntiau diogelwch ffyrdd a godwyd gan y swyddogion cynllunio yn ystod y broses ymgeisio yn y cais cynllunio terfynol, gan gynnwys y mesurau fyddai’n cael eu cynnwys yn y cynlluniau datblygu i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd;
- roedd canllaw ‘Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd’, yr oedd copi ohono ynghlwm i’r adroddiad, yn ddogfen dechnegol y cedwir ati wrth ymgymryd ag archwiliadau diogelwch ar y ffyrdd. Mae’r ddogfen hon yn nodi fod yn rhaid i o leiaf un person sy’n ymgymryd â’r archwiliad feddu ar ‘Dystysgrif Cymhwysedd’. Ar ôl derbyn yr adroddiad archwilio byddai un o beirianwyr diogelwch ar y ffyrdd cymwys y Cyngor yn sicrhau ansawdd yr asesiad, ac os oes angen byddai’n ei atgyfeirio yn ôl i’r datblygwr gyda chais eu bod yn mynd i’r afael â’r ymholiadau cyn symud y cais yn ei flaen i’r cam nesaf;
- byddai unrhyw farciau ffordd neu gynlluniau draenio sydd wedi’u cynnwys mewn ceisiadau cynllunio'n cael eu hasesu o ran ansawdd gan beirianwyr cymwys a gyflogir gan y Cyngor;
- unwaith y bydd caniatâd cynllunio wedi’i roi, ac os yw gwaith ar briffyrdd yn un o‘r amodau a nodwyd ar gyfer cymeradwyo’r caniatâd, byddai’r broses o archwilio diogelwch ar y ffyrdd yn symud ymlaen i Gam 2. Ar y cam hwn byddai’n rhaid i’r datblygwr geisio cymeradwyaeth priffyrdd ar gyfer newidiadau i’r briffordd e.e. adeiladu cylchfan, peintio llinellau ac ati;

Eglurodd y Cynghorydd Alice Jones i’r Pwyllgor, er gwaethaf y sicrwydd a roddir gan y swyddogion ynglŷn â chadernid ac annibyniaeth archwiliadau diogelwch ar y ffyrdd, roedd hi’n bendant eu bod wedi methu ar gyfer preswylwyr Bodelwyddan yn ystod cais cynllunio diweddar yng nghanol y pentref. Rhoddodd fanylion i’r Pwyllgor ynglŷn ag amgylchiadau’r cais cynllunio penodol hwn, gan bwysleisio ei safbwynt nad oedd yr Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd a baratowyd ar gyfer y cais hwn wedi cydymffurfio â’r holl feini prawf a awgrymir sydd wedi'u rhestru yn yr adran ar ‘Briff Archwilio Diogelwch ar y Ffyrdd’ yn nogfen ‘Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd. Teimla’r Cynghorydd Jones fod nifer o ffactorau pwysig wedi’u hepgor neu eu diystyru yn yr archwiliad diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer y cais penodol hwn e.e. mynediad i bobl anabl, llwybr diogel i’r ysgol ac ati.

Yn dilyn trafodaeth fanwl cafwyd consensws y byddai’n ddefnyddiol pe gellir trefnu gweithdy hyfforddiant ar gyfer holl aelodau’r Pwyllgor Cynllunio er mwyn egluro’r broses, y fethodoleg a’r meini prawf ar gyfer y broses archwilio diogelwch ar y ffyrdd a’u defnydd mewn perthynas â’r ceisiadau cynllunio. Dylai’r gweithdy fod yn sesiwn hanner diwrnod ac wedi’i gadeirio gan Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a dylid defnyddio enghraifft Bodelwyddan a nodwyd gan y Cynghorydd Alice Jones fel un o’r enghreifftiau yn y gweithdy. Dylid cyflwyno unrhyw argymhellion sy’n deillio o’r gweithdy ac sydd angen cymeradwyaeth ffurfiol gan aelodau etholedig i’r Pwyllgor Cynllunio i'w gymeradwyo maes o law.

Felly:

***PENDERFYNWYD:-***

*(i) derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd, yn amodol ar yr arsylwadau uchod;*

*(ii) gofyn i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i drefnu gweithdy hyfforddiant hanner diwrnod, wedi'i gadeirio gan Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, ar gyfer holl aelodau Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor ar y broses, y fethodoleg a'r meini prawf ar gyfer proses archwilio diogelwch ar y ffyrdd a'u defnydd mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.*

## 10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

A copy of a report by the Scrutiny Coordinator (SC), which requested the Committee to review and agree its forward work programme and which provided an update on relevant issues, had been circulated with the papers for the meeting.

A copy of the 'Member's proposal form' had been included in Appendix 2 The SC requested that any proposals be submitted to herself. The Cabinet Forward Work Programme had been included as Appendix 3, and a table summarising recent Committee resolutions and advising on progress with their implementation, had been attached at Appendix 4.

The Committee considered its draft Forward Work Programme for future meetings, Appendix 1 and the following amendments and additions were agreed:-

- Natural Resources Wales be invited to attend Communities Scrutiny Committee at their earliest convenience;
- Supporting Independent Living and Car Parking items be added to the 23rd March 2017 agenda.

***RESOLVED*** *that, subject to the above additions and agreements, the Forward Work Programme as set out in Appendix 1 to the report be approved.*

## 11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

There were no reports to be presented.

The meeting concluded at 13:50